
WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod y ddogfen: 113A2012

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.  Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn a ddyfernir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo bron £5.5 biliwn o'r arian hwn i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gymorth Lisa Williams, Jackie Joyce a chydweithwyr o dan arweiniad Alan Morris i gynnal yr Asesiad Gwella a llunio'r adroddiad hwn.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno** **4**

**Cynigion ar gyfer Gwella** **5**

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau da ar waith i gyflawni gwelliant ac mae'n perfformio'n dda yn y meysydd y mae'n canolbwyntio arnynt; ond nid yw'r trefniadau cynllunio, gwerthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn ddigon cytbwys nac yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau 8

Ar y cyfan, mae'r Awdurdod yn gwneud cynlluniau da ac yn rhoi trefniadau priodol ar waith i gyflawni gwelliant 9

Mae'r Awdurdod wedi cyflawni llawer o nodau'r blaenoriaethau a nodwyd ganddo 14

Mae gan yr Awdurdod systemau ar gyfer monitro perfformiad ond mae angen iddo fod yn fwy cytbwys wrth werthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad a chanolbwyntio ar amcanion gwella 22

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 25

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 26

**Atodiad 3**
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 28

**Atodiad 4**
Amcanion Gwella Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 31

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol yng Nghymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau.  Gan ystyried gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae i'r adroddiad hwn dair prif adran sy'n cwmpasu'r ffordd y mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) yn cynllunio, yn darparu ac yn gwerthuso gwelliant.

2 Ar y cyfan, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod yr Awdurdod wedi rhoi trefniadau da ar waith i gyflawni gwelliant a'i fod yn perfformio'n dda yn y meysydd y mae'n canolbwyntio arnynt; ond nid yw'r trefniadau cynllunio, gwerthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn ddigon cytbwys nac yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau.

3 Canfuwyd bod yr Awdurdod yn gwneud cynlluniau ac yn rhoi trefniadau priodol ar waith i gyflawni gwelliant ar y cyfan. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan yr Awdurdod drefniadau ar waith i fynd i'r afael â blaenoriaethau ac ymateb i awgrymiadau blaenorol ar gyfer gwella;
- mae'r Awdurdod mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'i heriau ariannol, ond mae graddau'r newid sydd ei angen yn golygu y bydd angen arweiniad a chyfeiriad clir parhaus;
- mae trefniadau rheoli gwybodaeth yn ategu gwelliant ond ceir rhai gwendidau o ran llywodraethu a pherfformiad;
- mae trefniadau presennol ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant ond mae angen ffocws corfforaethol a threfniadau llywodraethu cadarnach;
- mae'r Awdurdod yn bodloni rhwymedigaethau statudol mewn perthynas â Deddf yr Iaith Gymraeg.

4 Canfuwyd hefyd fod yr Awdurdod wedi cyflawni llawer o nodau'r blaenoriaethau a nodwyd ganddo:

- ar y cyfan, gwnaeth yr Awdurdod gynnydd da o ran cyflawni ei Amcanion Gwella yn 2010-11;
- mae'n helpu i atal rhai tanau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd; mae nifer y marwolaethau'n parhau'n isel ond mae nifer y bobl a anafwyd mewn tanau wedi cynyddu ac mae tanau bwriadol yn parhau'n destun pryder;
- mae'r Awdurdod wrthi'n datblygu ffyrdd mwy arloesol ac effeithlon o weithio i ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein barn ar hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad fod gan yr Awdurdod systemau ar gyfer monitro perfformiad ond bod angen iddo fod yn fwy cytbwys wrth werthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad a chanolbwyntio ar amcanion gwella. Ceir rhai gwendidau yn ansawdd a chywirdeb dangosyddion perfformiad y cyflwynwyd adroddiadau arnynt ac, er bod y defnydd o Gynllun Gwella ar-lein yn golygu y gall y cyhoedd gael gafael ar wybodaeth mewn ffordd fwy hyblyg a rhyngweithiol, mae angen i'r wybodaeth ei hun gyflwyno darlun cliriach o gynnydd yr Awdurdod yn erbyn ei amcanion gwella.

# Cynigion ar gyfer Gwella

| Cynigion ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| C1 | Parhau i roi cynigion blaenorol ar gyfer gwella ar waith, gan gynnwys:<br>• gwneud y gweithlu'n fwy amrywiol;<br>• defnyddio proses yr Adolygiad Datblygu Perfformiad ar gyfer staff mewn lifrai a staff cymorth yn gyson;<br>• atgyfnerthu amcanion gwella a mesurau perfformiad cysylltiedig a chyflwyno adroddiadau i ganolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau, nodi effaith ei weithgareddau ar ei gymuned, a dangos yn glir sut mae'r Awdurdod yn perfformio ar hyn o bryd, ei dargedau a sut mae'n cymharu ag awdurdodau tân ac achub eraill. |
| C2 | Gweithredu meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad Rheoli Gwybodaeth. |
| C3 | Gweithredu meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad o'r defnydd o Dechnoleg. |
| C4 | Mynd i'r afael â'r materion o ran cywirdeb a chyflawnder data sy'n deillio o'n harchwiliad o wybodaeth am berfformiad, yn benodol cofnodi marwolaethau oherwydd tân, y ffordd yr ymdrinnir â 'digwyddiadau dros y ffin' a chydymffurfiaeth ag amserlenni a chanllawiau Llywodraeth Cymru. |

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

6 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Ar dudalen 2 ceir esboniad cryno o'r hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud.

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn darparu rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn rhoi darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny, gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau eraill, gan gynnwys y Tîm Asesu Cymheiriaid Tân ac Achub[1], lle y bo'n briodol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Awdurdod wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan ystyried hunanasesiad yr Awdurdod ei hun.

8 Drwy'r Adroddiad, rydym yn nodi'r hyn y mae angen i'r Awdurdod ei wneud i wella ei wasanaethau. O ystyried yr ystod o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Awdurdod ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

9 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch roi eich barn drwy anfon e-bost i wales@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

1 Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru drefniadau newydd i asesu perfformiad gweithredol awdurdodau tân ac achub ym mis Tachwedd 2006. Fel rhan o'r broses asesu, cynhelir hunanasesiad yn erbyn fframwaith a ddarperir yn ganolog ynghyd ag adolygiad gan dîm asesu cymheiriaid sy'n cynnwys swyddogion o awdurdodau tân ac achub eraill.

## Mae'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau da ar waith i gyflawni gwelliant ac mae'n perfformio'n dda yn y meysydd y mae'n canolbwyntio arnynt; ond nid yw'r trefniadau cynllunio, gwerthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn ddigon cytbwys nac yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau

10 Mae'r adroddiad hwn yn nodi barn yr Archwilydd Cyffredinol ar berfformiad yr Awdurdod o ran cyflawni ei ddyletswydd statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Cafodd y farn hon ei llywio gan waith Swyddfa Archwilio Cymru, KPMG LLP a'r Tîm Asesu Cymheiriaid Tân ac Achub.

11 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r awdurdod. Canolbwyntiodd ein gwaith ar y prif amcanion y mae'r Awdurdod wedi'u pennu iddo'i hun ar gyfer blwyddyn archwiliad ariannol 2010-11. Mae'n adeiladu ar adborth ac adroddiadau archwilio blaenorol a gyflwynwyd i'r Awdurdod ac yn olrhain y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod o ran ymateb i ganfyddiadau archwiliadau blaenorol. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith a gyflawnwyd eleni.

12 Mae ein casgliad cyffredinol yn adlewyrchu cynnydd yr Awdurdod o ran gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a'r cynnydd y mae wedi'i wneud yn erbyn ei feysydd ffocws allweddol a'i Amcanion Gwella.

13 Yn ogystal â rhoi trefniadau effeithiol ar waith i gynllunio ar gyfer gwelliant a'i gyflawni, mae'n bwysig bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth dda o raddau'r cynnydd a'r gwelliant y mae'n ei wneud. Canfuwyd bod gan yr Awdurdod systemau ar gyfer monitro perfformiad ond nad yw'r rhain yn arwain at werthusiad cytbwys nac adroddiadau cytbwys ar berfformiad ar hyn o bryd. Mae'r diffyg hwn yn deillio'n bennaf o ddibyniaeth ar ddangosyddion strategol cenedlaethol penodol yn hytrach na chyfres lawn o fesurau cytbwys i asesu cyflawniad yn erbyn yr Amcanion Gwella a'r diffyg eglurhad o berfformiad (cadarnhaol neu negyddol) ar ffurf naratif.

14 Penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei holl ddyletswyddau o ran cyhoeddi gwybodaeth am welliant a gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar y cyfan.

# Ar y cyfan, mae'r Awdurdod yn gwneud cynlluniau da ac yn rhoi trefniadau priodol ar waith i gyflawni gwelliant

15 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi ein hasesiad o amcanion gwella'r Awdurdod sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 4, a sut mae'r Awdurdod yn cynllunio ac yn rheoli ei fusnes i gynnal a gwella gwasanaethau. Mae'r adran hon o'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at ymateb yr Awdurdod i faterion a godwyd mewn adroddiadau blaenorol.

## Mae gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i fynd i'r afael â'i flaenoriaethau ac ymateb i awgrymiadau blaenorol ar gyfer gwella

16 Nodwyd nifer o gryfderau yn nhrefniadau'r Awdurdod i sicrhau gwelliant yn llythyr *Diweddaru'r Asesiad Corfforaethol*, a gyflwynwyd i'r Awdurdod gan yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2011. Ymysg y cryfderau hyn roedd trefniadau cynllunio busnes sefydledig sy'n gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn ogystal â threfniadau arwain sy'n llywio newid.

17 Nododd y *Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol* y dylai blaenoriaethau'r Awdurdod mewn perthynas â'i drefniadau corfforaethol ar gyfer y cyfnod i ddod gynnwys gwella atebolrwydd cyhoeddus a chynnal gwerthusiad o'r newidiadau diweddar i'r system datblygu ac adolygu perfformiad, yn arbennig i staff cymorth.

18 Mae'r Awdurdod naill ai wedi gwneud cynlluniau neu wedi cymryd camau i wella trefniadau ar gyfer llunio adroddiadau i'r cyhoedd. Mae angen i'r Awdurdod adeiladu ymhellach ar y weithred hon drwy atgyfnerthu'r ffocws ar ganlyniadau. Mae'r cylch cynllunio nesaf (ar gyfer 2012-13) yn rhoi cyfle i'r Awdurdod sefydlu fframwaith sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i sicrhau bod gwybodaeth a ryddheir yn gyhoeddus yn glir ynghylch y gwahaniaeth y mae'n ei wneud i bobl, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud. Mae'r Awdurdod hefyd wedi dechrau gweithio i adolygu'r newidiadau a wnaed i'w system datblygu ac adolygu perfformiad.

19 Mae'r Awdurdod yn dechrau newid y ffordd y mae'n gwneud pethau gyda'r nod o wella ei effeithlonrwydd. Mae wedi gwneud cynnydd o ran gweithredu trefniadau cydnerth newydd yn yr ystafell reoli, mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio gyda pherchnogion eiddo masnachol a busnesau (i gyflawni ei rwymedigaethau diogelwch tân deddfwriaethol), symleiddio prosesau absenoldeb oherwydd salwch a newid y ffordd y mae'n ymdrin â diffodd tanau gwyllt. Mae hefyd yn rhoi trefniadau ar waith i dargedu gwiriadau diogelwch tân yn y cartref yn well ar gyfer y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf. Mae llawer o'r newidiadau hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill gan gynnwys awdurdodau unedol, y gwasanaeth iechyd a chyrff amrywiol o'r sector gwirfoddol.

20 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi nifer o feysydd ar gyfer gwella i'r Awdurdod yn ei adroddiadau dros y ddwy flynedd diwethaf. Nododd llythyr *Diweddaru'r Asesiad Corfforaethol* (Gorffennaf 2011) fod yr Awdurdod yn gweithio i fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd yn flaenorol ar gyfer gwella ac mae'r tabl isod yn rhoi diweddariad ar y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â phob cynnig blaenorol ar gyfer gwella.

| Cynnig ar gyfer gwella | Diweddariad 2012 |
|---|---|
| Asesiad corfforaethol rhagarweiniol (Awst 2010) | |
| Gwella atebolrwydd cyhoeddus ac ymgysylltu drwy roi mwy o wybodaeth i'r cyhoedd am y ffordd y mae'n gweithredu megis agendâu a chofnodion cyfarfodydd allweddol. | • Mae'r holl gofnodion ac agendâu bellach ar gael ar wefan yr Awdurdod, sydd wedi'i diweddaru.<br>• Golyga'r Cynllun Gwella ar-lein y gall y cyhoedd gael gafael ar wybodaeth allweddol mewn ffordd hyblyg a rhyngweithiol. |
| Ystyried ei brosesau ymgysylltu ac ymgynghori i annog cyfranogiad ehangach e.e. Facebook a Twitter. | • Mae Facebook a Twitter yn cael eu defnyddio.<br>• Ymgyrch 'BERNIE' i godi ymwybyddiaeth o danau gwyllt. |
| Ceisio ehangu amrywiaeth ei weithlu drwy werthuso'n llawn effaith y mentrau a gynhaliwyd ganddo hyd yn hyn i gyflawni targedau cysylltiedig. | • Cynhaliwyd gweithgareddau allgyrraedd yn ystod 2010-11 ond effeithiwyd ar allu'r Awdurdod i wneud newidiadau i amrywiaeth ei weithlu gan gyfyngiadau recriwtio. |
| Nodi sut y gellir defnyddio'r Adolygiad Datblygu Perfformiad yn fwy cyson ym mhob rhan o'r sefydliad. | • Cyflwynwyd prosesau diwygiedig mewn rhai meysydd o'r sefydliad.<br>• Ar y cyfan mae staff mewn lifrai yn gadarnhaol ynghylch y newidiadau a wnaed ond mae'r cyrff sy'n cynrychioli staff cymorth o'r farn bod yr Adolygiad Datblygu Perfformiad yn cael ei gymhwyso'n anghyson yn achos staff cymorth.<br>• Gwnaed rhai awgrymiadau ar gyfer gwella'r Adolygiad Datblygu Perfformiad yn yr ailasesiad ar gyfer yr achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl yng Ngwanwyn 2011, ac mae'r Awdurdod yn parhau i wneud hyn. |
| Datblygu ymhellach ei ddull o ymgysylltu â'r gweithlu. | • Cydnabuwyd gwelliannau sylweddol o ran ymgysylltu â'r gweithlu gan bron bob aelod o staff a gyfwelwyd ac maent hefyd yn cydnabod yr ymdrech y mae uwch reolwyr yn ei wneud i esbonio cynigion y Cynllun Lleihau Risg. |

| Cynnig ar gyfer gwella | Diweddariad 2012 |
| --- | --- |
| Yr Adroddiad gwella blynyddol (Ionawr 2011) | |
| Datblygu amcanion gwella a mesurau perfformiad a chanlyniadau cysylltiedig sy'n:<br>• ei alluogi i nodi effaith ei weithgarwch ar ei gymuned;<br>• dangos sut y mae'r Awdurdod yn perfformio nawr, ei dargedau a sut y mae'n cymharu â'r awdurdodau tân ac achub eraill. | • Mae'r Awdurdod wedi pennu Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12 sy'n cynnwys disgrifiadau o'r camau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd, sut y bydd yn gwybod ei fod yn llwyddo, a pha ganlyniadau y gall cymunedau eu disgwyl yn sgîl hynny.<br>• Mae'r Awdurdod yn defnyddio trefniadau Cyfrifyddu sy'n Seiliedig ar Ganlyniadau i ddatblygu ymhellach ei amcanion gwella a'i fesurau perfformiad a chanlyniadau cysylltiedig ar gyfer 2012-13 a byddwn yn adolygu'r rhain fel rhan o'r asesiad corfforaethol nesaf. |
| Blaenoriaethu newidiadau i brosesau yn yr adran Diogelwch Tân Deddfwriaethol a mynd i'r afael â gwendidau yn y wybodaeth reoli sydd ar gael. | • Mae newidiadau wedi'u blaenoriaethu ac mae'r Awdurdod wedi dechrau tendro ar gyfer system gyfrifiadurol newydd i ddarparu gwybodaeth reoli well. |

## Mae'r Awdurdod mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'i heriau ariannol, ond mae maint y newid sydd ei angen yn golygu y bydd angen arweiniad a chyfeiriad clir o hyd

21 Yn ddiweddar mae'r Awdurdod wedi diwygio ei gynllun ariannol tymor canolig ar gyfer 2011-2014, sy'n seiliedig ar flaenoriaethau clir sy'n adlewyrchu ei gynlluniau strategol (ar gyfer Asedau, Pobl a Lleihau Risg). Drwy adolygu ei gynllun ariannol tymor canolig a rhagdybiaethau a chynlluniau cysylltiedig, mae'r Awdurdod wedi defnyddio dull tymor canolig effeithiol o reoli arian a sicrhau bod ei refeniw a'i adnoddau cyfalaf yn cael eu cymhwyso at ei flaenoriaethau.

22 Mae'r Awdurdod wedi rheoli ei gyllideb yn dda dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n rhagweld tanwariant o £1.3 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol (2011-12), yn bennaf o ganlyniad i arbedion wedi'u cynllunio mewn costau staff. Mae'r trefniadau rheoli effeithiol hyn yn sail gadarn i'r Awdurdod wrth iddo wynebu cyfnod o newid sylweddol a thoriadau ariannol, gan fod ganddo hanes da o sicrhau y caiff ei wasanaethau eu darparu o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo.

23 Mae'r Awdurdod wedi bod yn ymwybodol ers cryn amser bod angen iddo sicrhau ei fod yn defnyddio'r adnoddau sydd ganddo mor effeithiol â phosibl. Mae'r Awdurdod yn parhau i wneud paratoadau synhwyrol ac mae ei Weithgor Cyllid yn ystyried yr holl opsiynau posibl o ran cyllid a gwasanaethau. Mae ei gyllideb ar gyfer 2012-13 yn cael ei hystyried a chaiff ei chadarnhau ym mis Chwefror 2012. Cyn hyn, bu'n strategaeth

gan yr Awdurdod i geisio sicrhau yr un swm o arian, os nad mwy, oddi wrth y cynghorau ag yr oedd y cynghorau cyfansoddol yn ei gael gan Lywodraeth Cymru. Ar gyfer 2012-13 mae'r Awdurdod yn bwriadu lleihau ei gyllideb 0.8 y cant er bod cynghorau cyfansoddol yn cynyddu eu cyllidebau 0.4 y cant. Drwy wneud hyn mae'r Awdurdod yn pennu targed mwy heriol iddo'i hun nag a wynebir gan y cynghorau eu hunain. Mae'r Awdurdod hefyd wedi ystyried y setliadau cyllidebol tebygol ar gyfer 2013-14 a 2014-15 gan eu bod yn dynodi gostyngiadau pellach mewn termau real yn arian refeniw'r Awdurdod.

24 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol farn amodol ar gyfrifon 2010-11 yr Awdurdod fel y gwnaeth yn 2008-09 a 2009-10. Mae'r broses o drosglwyddo i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn 2010-11 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol gynnwys y ddwy flwyddyn flaenorol fel cymariaethau. Rhoddwyd barn archwilio amodol ar gyfer 2010-11 oherwydd anghysondeb ym malansau agoriadol y cronfeydd wrth gefn yng nghyfrifon 2008-09 gan nad oeddent yn adlewyrchu'r fframwaith statudol ar y pryd. Ni fydd hyn yn digwydd eto yn 2011-12 a cheir rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

## Mae trefniadau rheoli gwybodaeth yr Awdurdod yn helpu i gyflawni gwelliant ond ceir rhai gwendidau o ran llywodraethu a pherfformiad

25 O ganlyniad i bwysau ariannol cynyddol ar y sector cyhoeddus, mae angen gwneud y mwyaf o'r wybodaeth a ddelir i ddarparu gwasanaethau o safon yn effeithiol a chynllunio ar eu cyfer. Daeth ein hadolygiad o'r ffordd y mae'r Awdurdod yn rheoli gwybodaeth i'r casgliad canlynol:

- Mae trefniadau a chynlluniau'r Awdurdod ar gyfer rheoli gwybodaeth yn cefnogi gwelliant ac, ar y cyfan, mae'n ymwybodol o'r materion y mae angen iddo fynd i'r afael â hwy.
- Ceir rhai gwendidau yn y trefniadau llywodraethu. Er enghraifft: nid oes gan yr Awdurdod Strategaeth Wybodaeth ddatblygedig; nid oes ganddo fforwm rheoli wedi'i ffurfioli i ddwyn ynghyd y trefniadau rheoli gwybodaeth gwahanol; ac nid yw staff yn cael eu hyfforddi ar faterion sy'n ymwneud â rheoli gwybodaeth, gan gynnwys diogelwch gwybodaeth.
- Mae gan yr Awdurdod drefniadau diogelwch electronig priodol ar waith ond nid yw'r ffordd y mae'n gwaredu gwybodaeth nad oes ei hangen mwyach ac yn rheoli negeseuon e-bost mor gadarn.

## Mae trefniadau presennol ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant ond mae angen ffocws corfforaethol a threfniadau llywodraethu cadarnach

26 Mae'n rhaid gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) er mwyn trawsnewid y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gwella canlyniadau i ddinasyddion a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Canfu ein hadolygiad fod yr Awdurdod yn deall sut y gall technoleg ei helpu i sicrhau defnydd cynaliadwy ac effeithiol o dechnoleg, cyflawni

effeithlonrwydd a thrawsnewid y gwasanaethau a ddarperir, ac mae wedi canolbwyntio ar ddefnyddio technoleg i gefnogi gweithrediadau rheng flaen. Mae angen ffocws corfforaethol cadarnach a threfniadau llywodraethu wedi'u hatgyfnerthu i:

- ddatblygu cynlluniau strategol cliriach i wneud y gorau o dechnoleg sy'n helpu i gyflawni amcanion gwella'r Awdurdod;
- sefydlu trefniadau cadarn a thryloyw ar gyfer nodi blaenoriaethau technolegol a chytuno arnynt;
- rheoli twf yn y galw am dechnoleg mewn ffordd effeithiol.

27 Mae'r Awdurdod yn defnyddio llawer o systemau a chronfeydd data cefn swyddfa gwahanol a cheir achosion o ddyblygu swyddogaethau a data sy'n achosi aneffeithlonrwydd ac yn peryglu cywirdeb data. Mae safonau technoleg yn anffurfiol ac ni chânt eu dogfennu ac eithrio rhai'r ystafell reoli.

28 Mae'r meysydd allweddol ar gyfer gwella fel a ganlyn:

- datblygu rôl lywodraethu a strategaeth TGCh sy'n gysylltiedig â Chynllun Ariannol Tymor Canolig;
- safoni prosesau a gweithdrefnau busnes, cyfuno ac integreiddio ceisiadau i sicrhau y caiff gwybodaeth ei storio a'i diweddaru mewn un man;
- dogfennu, cyhoeddi a hyrwyddo safonau a pholisïau technoleg;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod sgiliau TGCh arbenigol i gefnogi a datblygu ei dechnoleg heb amharu ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir;
- nodi cynlluniau i gyfuno a rhesymoli'r seilwaith TGCh;
- datblygu cyfres reoli gynhwysfawr i fonitro a mesur effeithiolrwydd ac effaith technoleg a boddhad defnyddwyr gwasanaethau.

## Mae'r Awdurdod yn bodloni ei rwymedigaethau statudol mewn perthynas â Deddf yr Iaith Gymraeg

29 Cafodd yr Awdurdod ei ganmol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) am y data meintiol ac ansoddol a gasglwyd yn ei Strategaeth Fonitro gynhwysfawr i sicrhau bod y Cynllun Iaith Gymraeg ar waith ym mhob rhan o'r sefydliad. Hefyd, canmolodd y Bwrdd yr Awdurdod am y gwaith a wnaed i sicrhau bod 97 y cant o weithlu'r Awdurdod wedi cael Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith erbyn hyn. Fodd bynnag, nododd y Bwrdd fod yr Awdurdod wedi methu â chyflwyno adroddiad ar sgiliau iaith Gymraeg ei weithlu. Mewn ymateb, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gynnal adolygiad cynhwysfawr o sgiliau iaith Gymraeg i sicrhau y gellir targedu hyfforddiant i sicrhau'r gwerth gorau am arian. Mae'r Bwrdd wedi croesawu'r penderfyniad hwn a bydd yn adolygu'r canlyniadau.

# Mae'r Awdurdod wedi cyflawni llawer o nodau'r blaenoriaethau a nodwyd ganddo

30 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi ein hasesiad o berfformiad yr Awdurdod o ran:

- cyflawni'r amcanion gwella a bennodd iddo'i hun yn 2010-11;
- helpu i leihau tebygolrwydd ac effaith tanau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd drwy ei weithgareddau atal ac amddiffyn;
- ymateb i danau a bygythiadau eraill i ddiogelwch.

## Ar y cyfan, gwnaeth yr Awdurdod gynnydd da o ran cyflawni ei Amcanion Gwella yn 2010-11

31 Ni phennodd awdurdodau tân ac achub Amcanion Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009) (y Mesur) ar gyfer 2010-11, ond yn lle hynny ailddatganwyd eu hamcanion corfforaethol cyfredol (gan mai hon oedd y flwyddyn interim gyntaf cyn i'r Mesur gael ei weithredu'n llawn). Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tân ac achub gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella eu gwasanaethau erbyn diwedd mis Hydref cyn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi. Ym mis Hydref 2009 roedd yr Awdurdod wedi cyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer 2010-11 a'i amcanion gwella ar gyfer 2011-12 a 2012-13 o fewn y terfynau amser angenrheidiol. Mae'r amcanion yn seiliedig ar bum thema allweddol a ategir gan nifer o amcanion a chasgliad o Ddangosyddion Perfformiad.

32 Mae Atodiad 4 yn darparu gwybodaeth am y camau i gefnogi amcanion gwella ar gyfer 2010-11 a 2011-12. Ar y cyfan, gwnaeth yr Awdurdod gynnydd da o ran cyflawni ei Amcanion Gwella yn 2010-11, a cheir crynodeb o hyn yn y tabl isod:

| Thema/Amcan Gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Ein cymunedau:** gostwng nifer y marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. | • Er bod nifer y marwolaethau oherwydd tân wedi aros yr un peth â'r hyn a gofnodwyd yn 2009-10 heb ostwng yn ystod 2010-11, mae cyfanswm y marwolaethau oherwydd tân fesul 100,000 o'r boblogaeth wedi gostwng. Ni chofnodwyd unrhyw farwolaethau oherwydd tanau bwriadol yn 2010-11.<br>• Er bod nifer yr anafiadau oherwydd tân (a'r rhai a achoswyd gan danau damweiniol) wedi gwaethygu, gwelwyd gostyngiad yn nifer yr anafiadau oherwydd tanau bwriadol fesul 100,000 o'r boblogaeth.<br>• Mae'r Awdurdod wedi cymryd camau i nodi a thargedu grwpiau sy'n agored i niwed ar gyfer gwiriadau diogelwch tân yn y cartref a datblygu ei ddull o sicrhau bod mesurau diogelwch tân digonol ar waith mewn eiddo masnachol a busnesau (diogelwch tân deddfwriaethol).<br>• Ymatebwyd i lai o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn ystod 2010-11. Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod llai o farwolaethau a damweiniau difrifol a llai o anafiadau a marwolaethau yn ardal yr Awdurdod yn 2010 na chynt.<br>• Mae effeithiolrwydd partneriaethau diogelwch cymunedol cyfredol yn cael ei asesu ar hyn o bryd gan y swyddog gwerthuso sydd newydd ei benodi. |
| **Ein pobl:** denu, cadw, datblygu a chynnal iechyd a lles ein pobl. | • Lle y bo'n bosibl, dylid adolygu a chysoni prosesau recriwtio ar gyfer staff llawn amser a'r system ar ddyletswydd yn ôl galw.<br>• Mae cydraddoldeb telerau ac amodau yn cael ei adolygu o hyd oherwydd maint y gwahaniaethau o ran hawliau, ond gwnaed rhywfaint o gynnydd mewn perthynas â hawliau gwyliau blynyddol a gwyliau banc.<br>• Mae'r Awdurdod wedi cwblhau ei Strategaeth Pobl ac wedi atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu er mwyn nodi'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol yn well.<br>• Cyflwynwyd y Rhaglen Arweinyddiaeth Weithredol er budd arweinwyr y dyfodol ar ôl iddi gael ei datblygu gyda Phrifysgol Warwick.<br>• Mae wedi cadw ei achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl ac yn gweithio tuag at weithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad yr ailasesiad (gwanwyn 2011).<br>• Cafodd llai o bobl eu hanafu 'ar ddyletswydd' yn 2010-11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae absenoldeb oherwydd salwch wedi gostwng yn sylweddol. |

| Thema/Amcan Gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Ein hadnoddau:** sicrhau bod ein hasedau yn cael eu defnyddio'n effeithiol i helpu i ddarparu gwasanaethau. | • Cyflawnwyd tanwariant o ran y gyllideb yn 2010-11, a rhagwelir tanwariant eto ar gyfer 2011-12.<br>• Mae'r Awdurdod wedi diweddaru ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig a ategir gan y Strategaeth Rheoli Asedau. Caiff y ddau eu hadolygu gan y Gweithgor Rheoli Asedau cyn i'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad eu hystyried a chyn i'r Awdurdod Tân llawn eu cymeradwyo.<br>• Mae'r strategaeth TGCh newydd yn mynd rhagddi.<br>• Mae penodiadau wedi'u gwneud yn yr Adran Prosiectau Mawr ac Eiddo a sefydlwyd yn ddiweddar. |
| **Ein sefydliad:** gwella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mewnol gan sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau ariannol a phobl. | • Nodwyd a sefydlwyd prosiectau yn ystod 2010-11, i'w datblygu yn 2011-12, i adolygu sut y darperir gwasanaethau, gan gynnwys criwiau hyblyg, y gwasanaeth tân sydd ar gael, y defnydd o bympiau eilaidd a chyfarpar arbenigol a'u lleoliad, a'r ddarpariaeth o reolwyr tactegol a rheolwyr canol.<br>• Mae dewisiadau amgen o ran maint y criwiau mewn gorsafoedd a phatrymau sifft wedi'u datblygu, a dechreuodd y gwaith o weithredu'r patrymau gwaith newydd yn 2011-12. |
| **Cynaliadwyedd:** hyrwyddo cymunedau lleol cynaliadwy drwy ein gweithgareddau. | • Mae'r Awdurdod yn cymryd camau i gyflawni lefel 3 o'r fframwaith asesu caffael cynaliadwy ac mae'n gwneud cynnydd o ran y tendr gwaredu gwastraff i fabwysiadu dulliau gwaredu sy'n fwy derbyniol o safbwynt amgylcheddol.<br>• Mae safleoedd a fyddai'n peri'r risg fwyaf o achosi niwed amgylcheddol pe bai tân yn cael eu blaenoriaethu yn ei broses arolygu ar gyfer eiddo masnachol a busnesau. |

## Mae'r Awdurdod yn helpu i atal rhai tanau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, mae nifer y marwolaethau'n parhau'n isel ond mae nifer y bobl a anafwyd mewn tanau wedi cynyddu ac mae tanau bwriadol yn parhau'n destun pryder

**Ymatebwyd i lai o danau mewn anheddau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond cynyddodd nifer y marwolaethau a nifer yr anafiadau**

33 Mae'r Awdurdod yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau a gynlluniwyd i atal tanau rhag digwydd a lleihau eu heffaith pan fyddant yn digwydd. Yn 2010-11 dechreuodd yr Awdurdod dargedu ei raglen o wiriadau diogelwch tân yn y cartref i raddau helaethach. Datblygodd feini prawf i asesu pan fo rhywun yn agored i niwed ac mae cytundebau lefel gwasanaeth yn cael eu datblygu gydag asiantaethau partner i gyflawni'r gwiriadau hyn yn y dyfodol. Nid yw'n bosibl dweud a yw'r gwiriadau diogelwch tân yn y cartref a gynhelir wedi'u targedu at y bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn gwirionedd, gan nad yw'r data hwn yn cael ei gasglu. Dylai'r Swyddog Gwerthuso, sef swydd newydd ei chreu, ddarparu rhagor o ddata ar effeithiolrwydd y camau gweithredu hyn yn y dyfodol.

34 Gwelwyd gostyngiad o naw y cant yn nifer y tanau mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2010-11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 992 o achosion yn 2009-10 i 904 yn 2010-11). Mae'r gostyngiad hwn yn rhagori ar gyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o bedwar y cant ar gyfer yr un cyfnod.

- Gwelwyd gostyngiad o chwech y cant yn nifer y tanau mewn anheddau a ddechreuwyd yn ddamweiniol yn ystod 2010-11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 801 o achosion yn 2009-10 i 751 yn 2010-11). Mae'r gostyngiad hwn yn cymharu'n dda â chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o ddau y cant ar gyfer yr un cyfnod.
- Gwelwyd gostyngiad o 20 y cant yn nifer y tanau mewn anheddau a ddechreuwyd yn fwriadol hefyd (o 191 o achosion yn 2009-10 i 153 yn 2010-11) sy'n cymharu'n dda a chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o 13 y cant ar gyfer yr un cyfnod.

35 Bu farw pedwar o bobl oherwydd tanau mewn anheddau yn ystod 2010-11 (un myw na 2009-10) a chynyddodd nifer yr anafiadau a achoswyd gan danau mewn anheddau 18 y cant (o 105 yn 2009-10 i 124 yn 2010-11). Mae'r cynnydd hwn mewn anafiadau yn is na'r cynnydd o 23 y cant a welwyd ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

36 Gwelir tystiolaeth sy'n awgrymu bod larymau mwg a roddir am ddim i'r rhai sydd mewn perygl fel rhan o'i waith ar wiriadau diogelwch tân yn y cartref yn gwneud gwahaniaeth, gan gynnwys:

- ymatebwyd i lai o danau mewn anheddau mewn eiddo heb larwm mwg (o 53 y cant yn 2009-10 i 47 y cant yn 2010-11), ond mae'r gyfran hon yn parhau'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 38 y cant ar gyfer 2010-11;
- ymatebwyd i fwy o danau mewn anheddau lle'r oedd cyfarpar canfod tân wedi'i weithredu (o 36 y cant yn 2009-10 i 42 y cant yn 2010-11), ond mae'r gyfran hon yn

parhau'n is na chyfartaledd Cymru, sef 48 y cant ar gyfer 2010-11;

- ymatebwyd i ychydig yn fwy o danau mewn anheddau lle'r oedd cyfarpar canfod tân wedi'i osod ond heb ei weithredu (o 10 i 12 y cant) ac mae'r ffigur hwn yn well na chyfartaledd Cymru, sef 15 y cant ar gyfer 2010-11.

**Ymatebwyd i lai o danau ar safleoedd annomestig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac, er na chafwyd unrhyw farwolaethau, cynyddodd nifer yr anafiadau**

37 Cafwyd gostyngiad o 19 y cant yn nifer y tanau ar safleoedd annomestig yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2010-11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 569 o achosion yn 2009-10 i 460 yn 2010-11), sy'n well na chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o 10 y cant ar gyfer yr un cyfnod.

38 Ni chafwyd unrhyw farwolaethau oherwydd tanau ar safleoedd annomestig yn ystod 2010-11 (fel yn 2009-10). Cynyddodd nifer yr anafiadau a achoswyd gan danau o'r fath 27 y cant (o 11 yn 2009-10 i 14 yn 2010-11) sy'n cymharu'n dda â chyfartaledd Cymru, sef cynnydd o 41 y cant ar gyfer yr un cyfnod. Fodd bynnag, mae'r niferoedd hyn yn fach a gall pob digwyddiad gael effaith sylweddol wrth gymharu blynyddoedd. Yr un yw'r duedd dros gyfnod hwy; ers 2004-05 mae'r Awdurdod wedi gweld cynnydd o 17 y cant yn y mathau hyn o anafiadau o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o 47 y cant.

39 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod orfodi darpariaethau Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 i sicrhau bod mesurau diogelwch tân digonol ar waith mewn eiddo masnachol a busnesau. Mae hefyd yn gallu rhoi cyngor a chymryd camau gorfodi pan fydd yn ystyried bod angen, er enghraifft os ceir risg ddifrifol nad yw'n cael ei rheoli.

40 Yn ystod 2010-11, gwelwyd gwelliant ym mhrosesau busnes yr Awdurdod o ran cyflwyno rhaglen arolygu ar sail risg gyda'r nod o dargedu eiddo masnachol a fyddai'n peri'r risg fwyaf pe bai tân. Datblygwyd ymhellach bartneriaethau sydd eisoes yn bodoli i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Gorchymyn Diogelwch Tân ymysg perchnogion eiddo masnachol a busnesau ac mae'n gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaethau Diogelwch Tân.

41 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu canllawiau cenedlaethol Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân ar leihau galwadau tân diangen a signalau tân diangen. Gwelwyd gostyngiad o un y cant yn nifer y galwadau tân diangen yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2010-11 o gymharu â 2009-10 (o 3,809 i 3,787) sy'n llai na chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o naw y cant ar gyfer yr un cyfnod.

**Ymatebwyd i fwy o danau bwriadol yn ystod 2010-11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond ni chafwyd unrhyw farwolaethau a gostyngodd nifer yr anafiadau**

42 Gwelwyd cynnydd o 12 y cant yn nifer y tanau bwriadol yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2010-11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 8,534 o achosion yn 2009-10 i 9,568 yn 2010-11) sydd, fwy neu lai, yr un peth â chyfartaledd Cymru, sef cynnydd o 11 y cant ar gyfer 2010-11. Gellir priodoli'r cynnydd yn nifer y tanau bwriadol yr ymatebwyd iddynt i danau glaswelltiroedd, coetir a chnydau ynghyd â thanau gwastraff rhydd.

43 Dechreuwyd tua 81 y cant o'r holl danau yr ymatebwyd iddynt yn fwriadol yn ystod 2010-11, sydd ychydig yn uwch na'r ffigur ar gyfer 2009-10 (80 y cant) ac yn uwch o lawer na chyfartaledd Cymru, sef 69 y cant yn ystod 2010-11. Ni fu farw neb mewn tanau bwriadol yn ystod 2010-11 a gostyngodd nifer yr anafiadau a achoswyd 35 y cant, o 34 yn 2009-10 i 22 yn 2010-11.

44 Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol a nifer o brosiectau ym maes diogelwch cymunedol i fynd i'r afael â thanau bwriadol. Mae prosiect Bernie yn ymgyrch a arweinir gan yr Awdurdod a'i nod yw tynnu sylw at beryglon tanau gwyllt bwriadol mewn pedair ardal o risg uchel yn ystod 2010-11, drwy ymgysylltu'n weithredol â'r cymunedau yr effeithiwyd arnynt.

**Mae ymgyrchoedd Diogelwch ar y Ffyrdd wedi parhau eleni a gwelwyd gostyngiadau sylweddol yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt, damweiniau angheuol a difrifol, marwolaethau ac anafiadau**

45 Nod yr Awdurdod yw gweld cymunedau heb farwolaethau nac anafiadau o ganlyniad i wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Y nod yw sicrhau bod cymunedau'n fwy diogel yn ogystal â lleihau'r costau cymdeithasol ac economaidd ehangach i deuluoedd pan fo rhywun yn cael ei ddal mewn digwyddiad o'r fath. Gall mentrau diogelwch ar y ffyrdd llwyddiannus hefyd helpu i leihau'r gost economaidd i fusnesau o ganlyniad i ffyrdd wedi cau, oedi neu gerbydau a gaiff eu dal mewn damweiniau.

46 Cynhaliodd yr Awdurdod nifer o fentrau a gynlluniwyd i leihau nifer y damweiniau ffordd gan gynnwys;

- cynnal ei rôl fel partner â grŵp Diogelwch Ffyrdd Cymru,
- yr Effaith Domino (pecyn addysg ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 3 i'w hysbysu o effeithiau ymddygiad amhriodol mewn cerbydau),
- Operation Cruise (rhaglen ymgysylltu a ddefnyddir gan Reolwr Diogelwch ar y Ffyrdd yr Awdurdod i ryngweithio â gyrwyr 17 i 24 oed,
- y prosiect beiciau cyflym (i annog beicwyr modur i fynychu cyrsiau hyfforddiant i feicwyr modur a noddir gan yr heddlu. Cynhelir y cyrsiau hyn ar hyn o bryd ond ychydig o feicwyr sy'n achub ar y cyfle).

47 Gwelwyd gwelliannau o ran diogelwch ar y ffyrdd yn Ne Cymru, fel y dangosir isod;

- bu gostyngiad o 24 y cant yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2010-11, o 1,372 i 1,042; mae'r gostyngiad hwn yn fwy na'r gostyngiad a welwyd ledled Cymru, sef 20 y cant;
- bu gostyngiad o 14 y cant yn nifer y damweiniau angheuol a difrifol, o 345 o ddamweiniau yn 2009 i 298 yn 2010; mae'r gostyngiad hwn yn fwy na'r gostyngiad a welwyd ledled Cymru, sef 10 y cant;
- bu llai o bobl farw mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, o 47 o bobl yn 2009 i 32 yn 2010;

- bu gostyngiad o bump y cant yn nifer y bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu rhwng 2009 pan gafodd 4,129 o bobl eu lladd neu eu hanfu a 2010 pan gafodd 3,903 o bobl eu lladd neu eu hanafu; mae'r gostyngiad hwn rhywfaint yn fwy na'r gostyngiad a welwyd ledled Cymru, sef pedwar y cant;
- bu 1,035 o yrwyr 25 oed ac iau mewn damweiniau yn 2010 o gymharu â 1,316 yn 2009 - gostyngiad o 21 y cant, sy'n fwy na'r gostyngiad cyfartalog yng Nghymru, sef 14 y cant;
- cafodd 189 o feicwyr modur eu lladd neu eu hanafu yn 2010 o gymharu â 212 yn 2009 - gostyngiad o 11 y cant sy'n fwy na'r gostyngiad cyfartalog yng Nghymru, sef tua un y cant.

## Mae'r Awdurdod wrthi'n datblygu ffyrdd mwy arloesol ac effeithlon o weithio i ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau

48 Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen bod yn barod i ymateb i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, o danau i wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd i lifogydd, trychinebau naturiol eraill a therfysgaeth. Yn ystod 2010-11 atebodd y gwasanaeth Rheoli Tanau tua 47,600 o alwadau ac ymatebwyd i tua 23,500 o ddigwyddiadau yn sgîl hyn, a oedd yn cynnwys 11,757 o danau a 3,335 o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig (gan gynnwys gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl ac anifeiliaid).

49 Yn 2010-11, nododd yr Awdurdod, drwy ei Gynllun Lleihau Risg, ffyrdd gwahanol o drefnu ei griwiau'n ddiogel a allai gostio llai. O fis Ebrill 2011, mae trefniadau criwiau hyblyg wedi'u rhoi ar waith mewn gorsafoedd ar ôl ymgynghori'n eang â'i staff a phartïon allanol. Mae hefyd yn parhau i adolygu agweddau eraill ar y gwasanaethau a ddarperir ganddo gan gynnwys y defnydd o bympiau eilaidd a'u lleoliad, cyfarpar arbennig, sut y gellir gwneud mwy o ddefnydd o ddulliau ymateb deallus i sicrhau bod yr ymateb yn brydlon gan felly leihau effaith tanau, a pha wybodaeth y mae'n ei rhoi i griwiau drwy weithdrefnau a chynlluniau tactegol gweithredol safonol.

50 Mae'r Tîm Asesu Cymheiriaid Tân ac Achub wedi adolygu trefniadau ymateb ac ymdrin â galwadau yn ddiweddar, a bydd yn cyflwyno adroddiad ar hyn yn y dyfodol agos.

51 Mae'r rhaglen archwiliadau iechyd a diogelwch mewn gorsafoedd ac adrannau wedi parhau drwy gydol y flwyddyn. Yn ystod 2010-11, cafodd 72 o aelodau o staff eu hanafu, sy'n lleihad bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan gafodd 76 eu hanafu. Cafodd llai o aelodau o staff eu hanafu tra eu bod 'ar ddyletswydd', gyda 30 yn 2010-11 o gymharu â 41 yn 2009-10. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer yr aelodau o staff a anafwyd tra eu bod yn cael hyfforddiant (13 yn 2010-11 o gymharu â saith yn 2009-10) ac yn ymgymryd â gweithgareddau arferol (29 yn 2010-11 o gymharu â 28 yn 2009-10).

52 Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y diwrnodau/sifftiau a gollwyd o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch yn 2010-11 o ychydig yn fwy na 1,000 diwrnod yn ystod y flwyddyn flaenorol, i 8,660 diwrnod, sef gostyngiad o 11 y cant. Collwyd 7.1 diwrnod/sifft gwaith o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch fesul cyflogai cyfwerth ag amser llawn (gan yr holl staff) yn 2010-11, a dyma'r ffigur isaf y mae'r Awdurdod wedi'i gyflawni ers 2004-05. Roedd y gyfradd uchaf o absenoldeb oherwydd salwch ymysg staff anweithredol, sef cyfartaledd o 12 diwrnod (o gymharu â 10 diwrnod yn 2009-10), gwelwyd cyfradd absenoldeb o ychydig yn fwy na phum diwrnod ymysg staff gweithredol amser cyflawn (o gymharu â saith yn 2009-10) a gwelwyd cyfradd o naw diwrnod o absenoldeb ymysg staff rheoli cyfwerth ag amser llawn, sef gostyngiad o 15 diwrnod yn 2009-10.

53 Gwelwyd gostyngiad o bump y cant yn nifer y galwadau maleisus a atebodd yr Awdurdod yn ystod 2010-11, sef 2,106 o gymharu â 2,209 yn 2009-10, sy'n well na chyfartaledd Cymru, a welodd ostyngiad o wyth y cant ar gyfer yr un cyfnod. Yn ogystal â gostyngiad yn nifer y galwadau maleisus y mae'n eu derbyn, mae nifer y galwadau maleisus yr ymatebwyd iddynt hefyd wedi gostwng o naw y cant dros yr un cyfnod, o 593 i 540, ond roedd cyfradd y gostyngiad yn is na chyfartaledd Cymru, sef 13 y cant ar gyfer yr un cyfnod. Mae'r Awdurdod yn parhau i gynnal ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o beryglon galwadau maleisus.

## Mae gan yr Awdurdod systemau ar gyfer monitro perfformiad ond mae angen iddo fod yn fwy cytbwys wrth werthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad a chanolbwyntio ar amcanion gwella

54 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi ein casgliad o ran pa mor dda yw hunanwerthusiad yr Awdurdod o'i berfformiad. Nid yw'n ofynnol i awdurdodau tân ac achub lunio asesiad o berfformiad o dan y Mesur ar gyfer 2010-11 ond disgwylir iddynt asesu pa mor dda y maent yn cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddynt. Mae'r asesiad yn defnyddio canfyddiadau ein harchwiliad o Ddangosyddion Perfformiad, ein harchwiliad o Gynllun Gwella 2011-12 a'n hadolygiad o amcanion gwella.

55 Mae hunanasesiad cywir yn hanfodol i allu'r Awdurdod i:

- gydnabod y cynnydd y mae'n ei wneud;
- cymryd camau adferol pan nad yw perfformiad yn cyrraedd y lefelau disgwyliedig;
- cyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad i ddinasyddion lleol mewn ffordd gytbwys.

56 Er mwyn asesu'r cynnydd y mae'n ei wneud, mae angen gwybodaeth dda am berfformiad ar yr Awdurdod a threfniadau cadarn ar gyfer monitro'r wybodaeth honno. Mae gan yr Awdurdod wybodaeth am berfformiad sy'n seiliedig ar ystod o ddangosyddion perfformiad sydd, o'i chyfuno â gwybodaeth arall lle nad oes dangosyddion perfformiad ar gael neu lle nad ydynt yn berthnasol, yn galluogi'r Awdurdod i lunio barn ar ansawdd a pherfformiad.

57 Wrth archwilio'r data a'r dangosyddion perfformiad diweddaraf, gwelsom fod angen gwella ansawdd a chywirdeb y wybodaeth a gofnodir. O blith y 12 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol y mae'n ofynnol i'r Awdurdod gasglu gwybodaeth a rhoi gwybodaeth amdanynt i Lywodraeth Cymru, nodwyd tri y mae angen eu cywiro. Hefyd nodwyd anghysondebau yn nifer y marwolaethau a gofnodwyd gan y systemau amrywiol a ddefnyddir gan Dîm Ymchwilio i Danau ac Uned Rheoli Perfformiad yr Awdurdod. Rydym yn argymell y dylai'r Awdurdod ystyried cymryd camau i:

- wella cywirdeb y wybodaeth y cyflwynir adroddiadau arni drwy sicrhau bod y System Cofnodi Digwyddiadau bob amser yn gyfredol;
- cofnodi pob marwolaeth oherwydd tân yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- cydweithio â'r ddau awdurdod tân ac achub arall yng Nghymru i ddysgu o'r ffordd y maent yn cofnodi marwolaethau oherwydd tanau;
- gwella prosesau cyfathrebu rhwng yr Uned Rheoli Perfformiad a'r Tîm Ymchwilio i Danau;
- ystyried canfyddiadau manwl yr archwiliad o Ddangosyddion Perfformiad yn unol â'r argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn yr Adolygiad Rheoli Gwybodaeth er mwyn sicrhau y caiff pob data ei reoli'n effeithiol ac y caiff gwendidau o ran llywodraethu a pherfformiad eu hunioni.

58 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd rhai o'i amcanion yn anodd eu mesur, ac mae'n datblygu dangosyddion newydd i wneud hyn. Y llynedd awgrymwyd gennym y dylai dangosyddion o'r fath gynnwys mesurau ansoddol a meintiol fel y gellir nodi a gwerthuso canlyniadau cymunedol. Mae angen i'r gwaith hwn barhau. Heb gyfres lawn o fesurau a all ddangos yn glir p'un a yw wedi cyflawni ei Amcanion Gwella, ni all yr

Awdurdod ddangos p'un a yw wedi cyflawni ei amcanion a gwneud gwelliannau i ddinasyddion.

59 Nododd adroddiad asesu cymheiriaid yn 2010 fod yr Awdurdod yn 'cydnabod bod bylchau yn ei broses casglu data'. Mae'r Awdurdod o'r farn y bydd datblygu 'arsyllfeydd data' yn y dyfodol yn datrys y broblem hon ac mae prosiect yn mynd rhagddo i adolygu'r ffordd orau ymlaen.

60 Nid yw'r trefniadau arferol ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad yr Awdurdod yn canolbwyntio ar gynnydd i gyflawni ei Amcanion Gwella. Nid yw fformat yr adroddiadau wedi newid yn ystod 2011-12 o'r hyn a ddefnyddiwyd yn 2010-11 ac mae'n seiliedig ar Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a nifer fach o ddangosyddion lleol. Golyga hyn na all aelodau nac uwch reolwyr fonitro a yw Amcanion Gwella yn cael eu cyflawni drwy gydol y flwyddyn.

61 Y dull pwysicaf o gyflwyno adroddiadau ar berfformiad i ddinasyddion lleol yw drwy Gynllun Gwella blynyddol yr Awdurdod sy'n darparu gwybodaeth am weithgareddau gwella blaenorol a chyfredol a rhai'r dyfodol. Mae'r defnydd o Gynllun Gwella ar-lein yn newid sylweddol yn y ffordd y mae'r Awdurdod yn ceisio cyflwyno a chyfleu'r Cynllun Gwella fel y gall rhanddeiliaid a'r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth allweddol sydd o ddiddordeb iddynt mewn ffordd hyblyg a rhyngweithiol.

62 Nid yw'r Cynllun Gwella yn cynnwys arfarniad beirniadol o farn yr Awdurdod ar ei berfformiad cyffredinol, a'r hyn y bydd yn ei wneud yn wahanol yn sgîl hynny. Mae'r atodiad am wybodaeth am berfformiad yn y Cynllun Gwella yn dangos perfformiad ar gyfer blynyddoedd blaenorol a detholiad o awdurdodau tebyg i roi darlun o'r cynnydd a wnaed. Nid yw'r Cynllun Gwella yn cynnwys asesiad cyffredinol o gynnydd yr Awdurdod yn erbyn ei Amcanion Gwella, ac ynghyd â'r ffaith nad oes asesiad cytbwys o'i gyflawniadau a bod defnydd anghyson o gymariaethau, byddai llawer o ddinasyddion yn ei chael yn anodd dod i gasgliad cywir mewn perthynas â chynnydd yr Awdurdod yn 2010-11 o ddarllen y cynllun.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, i gyflwyno adroddiad sy'n tystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Prif waith Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau, yw cynnal Asesiad Gwella blynyddol.

Caiff hyn ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Bydd hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr Awdurdod o ran sicrhau gwelliant.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn disgrifio'r graddau y mae wedi gwneud hynny.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Mae'n rhaid i'r Awdurdod gyflawni'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol. Mae tri darn pwysig o ddeddfwriaeth yn ymwneud ag awdurdodau tân:

## Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tân wneud darpariaeth ar gyfer diffodd tanau, sydd hefyd yn golygu diogelu bywydau ac eiddo mewn achosion o dân yn ogystal â diffodd tanau. Mae hefyd yn darparu ar gyfer ymateb i wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac achosion brys eraill yn ogystal â gweithgareddau diogelwch cymunedol.

## Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Daeth y Gorchymyn i rym ar 1 Hydref 2006, gan ddisodli dros 70 o ddarnau unigol o ddeddfwriaeth diogelwch tân. Diddymwyd y gofyniad i fusnesau feddu ar dystysgrifau tân. Mae'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn gymwys i bob safle annomestig yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys rhannau cyffredin blociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth. Mae'n rhoi cyfrifoldeb i'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â diogelwch tân a sicrhau y caiff risgiau eu hadolygu'n barhaus. O dan y Gorchymyn mae'n ofynnol i'r Person Cyfrifol[2] gynnal asesiad risg tân a rhoi mesurau diogelwch tân priodol ar waith er mwyn sicrhau'r risg leiaf posibl i fywydau o ganlyniad i dân; a sicrhau bod yr asesiad yn gyfredol. Caiff y Gorchymyn ei orfodi gan Awdurdodau Tân ac Achub y disgwylir iddynt ddatblygu cyfundrefnau arolygu priodol yn seiliedig ar risg.

## Deddf Argyfyngau Sifil 2004

Mae'r Ddeddf yn darparu un fframwaith ar gyfer mesurau amddiffyn sifil yn y Deyrnas Unedig a all ateb heriau'r unfed ganrif ar hugain. Mae'r Ddeddf wedi'i rhannu'n ddwy; Rhan 1 sy'n diffinio rhwymedigaethau sefydliadau penodol i baratoi ar gyfer mathau amrywiol o argyfyngau a Rhan 2 sy'n darparu pwerau ychwanegol i'w defnyddio gan y Llywodraeth os bydd argyfwng difrifol.

O dan y Ddeddf caiff gwasanaethau tân ac achub eu diffinio'n Ymatebwyr Categori 1 ac fel y cyfryw mae ganddynt chwe dyletswydd benodol i'w cyflawni:

- asesu'r risg o argyfyngau a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio gwaith cynllunio wrth gefn;
- rhoi cynlluniau argyfwng ar waith;
- rhoi trefniadau Rheoli Parhad Busnes ar waith;
- rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth am faterion amddiffyn sifil ar gael i'r cyhoedd a chynnal trefniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd mewn achos o argyfwng;
- rhannu gwybodaeth ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella'r broses gydgysylltu;

2 Mae dogfennau Cyfraith a Chanllawiau Diogelwch Tân yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i fusnesau yn datgan bod y gyfraith yn gymwys i chi os ydych: yn gyfrifol am safleoedd busnes, yn gyflogwr neu'n unigolyn hunangyflogedig sydd â safle busnes, yn gyfrifol am ran o anheddiad sy'n cael ei defnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion busnes, yn elusen neu'n sefydliad gwirfoddol, yn gontractwr â rhywfaint o reolaeth dros unrhyw safle, yn darparu llety i westeion sy'n talu.

- cydweithio ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella prosesau cydgysylltu ac effeithlonrwydd.

Gosodir dyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol sef:

- Rhoi cyngor a chymorth i fusnesau a sefydliadau gwirfoddol mewn perthynas â rheoli parhad busnes. Gellir galw ar wasanaethau tân ac achub lleol i gynorthwyo â'r rôl hon.

Mae sefydliadau Categori 2 yn cynnwys sefydliadau megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cwmnïau trafnidiaeth a chwmnïau cyfleustodau. Bydd sefydliadau Categori 1 a 2 yn sefydlu Fforymau Cydnerthu Lleol (yn seiliedig ar ardaloedd yr heddlu) a fydd yn helpu ymatebwyr i gydgysylltu a chydweithio ar lefel leol.

Caiff yr Awdurdod ei ariannu'n uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol sy'n rhan ohono yn seiliedig ar ragolygon poblogaeth ym mhob ardal. Mae'n cynnwys 24 o gynghorwyr o'r 10 awdurdod unedol yn Ne Cymru (caiff nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod cyfansoddol ei phennu gan nifer yr etholwyr llywodraeth leol cofrestredig ym mhob ardal).

Cadeirydd Presennol yr Awdurdod Tân ac Achub yw'r Cynghorydd Anthony Ernest.

Yr Awdurdod yw'r prif gorff ar gyfer llunio polisïau ac mae'n llywodraethu'r broses o fabwysiadu arferion gwaith amrywiol yn unol â chanllawiau statudol a gyflwynir gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r Awdurdod yn cyfarfod bob chwarter a chaiff ei gefnogi gan dri phrif bwyllgor, sef y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad, y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydraddoldeb, y Pwyllgor Safonau a nifer o weithgorau. Mae'r grwpiau hyn i gyd yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried materion o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae cyfarfodydd y pwyllgor yn agored i'r cyhoedd, ac mae cofnodion o drafodion yr Awdurdod ar gael ar ei wefan.

Arweinir a rheolir y Gwasanaeth gan Huw Jakeway, y Prif Swyddog Tân Dros Dro, gyda chymorth y tîm rheoli corfforaethol.

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan yr Awdurdod ei hun yn www.southwales-fire.gov.uk neu cysylltwch â'r Awdurdod ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, Rhondda Cynon Taf, CF72 8LX.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Cyhoeddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad archwilydd fel a ganlyn ar 30 Tachwedd 2011.

Fel y gwyddoch, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi *Adroddiad Gwella Blynyddol* i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012 a bydd rhai o'r materion a nodwyd yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn draddodiadol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi achub ar y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol yn y llythyr byr hwn, sy'n ffurfio'r *Llythyr Archwilio Blynyddol*. Bwriedir i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol, ond caiff ei gyflwyno i'r Awdurdod a'r cyhoedd fel rhan o'r *Adroddiad Gwella Blynyddol* hefyd ac felly mae'n cyflawni fy nyletswyddau o ran cyflwyno adroddiad o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru â'r gofynion o ran cyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad ariannol a'i ddefnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Ar 30 Medi 2011 cyhoeddais farn archwilio amodol ar y datganiadau cyfrifyddu. Rhoddwyd barn amodol oherwydd anghytundeb ynghylch y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer balansau cronfeydd wrth gefn cyffredinol yr Awdurdod a'r rhai a glustnodwyd.

Wrth archwilio'r cyfrifon yn 2007-08, cafwyd cyngor cyfreithiol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gadarnhaodd nad yw'r Fframwaith Statudol y mae'r Awdurdod yn gweithredu'n unol ag ef yn darparu ar gyfer cadw cronfeydd wrth gefn sydd wedi cronni yn sgîl cyfran briodol dros ben o wariant net ei awdurdodau cyfansoddol mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Fodd bynnag, dewisodd yr Awdurdod beidio ag addasu'r cyfrifon i ddileu'r balansau a gadwyd yn flaenorol fel cronfeydd wrth gefn ac i ailddosbarthu'r symiau'n rhwymedigaethau cyfredol (symiau a ddelir ar ran awdurdodau cyfansoddol). Arweiniodd hyn at roi barn archwilio amodol ar y cyfrifon o ganlyniad i anghytundeb ar y driniaeth gyfrifyddu mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn.

Parhaodd yr Awdurdod â'i driniaeth gyfrifyddu yn 2008-09. Bellach mae ymgynghoriad i ddiwygio'r Gorchymyn Cyfuno er mwyn galluogi Awdurdodau Tân i gadw cronfeydd wrth gefn wedi'i gwblhau a chadarnhawyd y gall yr Awdurdodau Tân gadw cronfeydd wrth gefn o 1 Rhagfyr 2009. Fodd bynnag, nid oedd y diwygiad yn ôl-weithredol ac felly nodwyd camddatganiad nas cywirwyd yn y cyfrifon mewn perthynas â'r balansau ariannol a gadwyd fel cronfeydd wrth gefn.

Mae'r broses o drosglwyddo i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn 2010-11 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol gynnwys y ddwy flwyddyn flaenorol fel cymariaethau. Felly, mae barn archwilio amodol yn cael ei rhoi ar gyfer 2010-11 o ganlyniad i'r camddatganiad ym malansau agoriadol cronfeydd wrth gefn yng nghyfrifon 2008-09.

Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd nifer o faterion a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau yn fy Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol.

O 2010-11, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio eu cyfrifon yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Gosododd y safonau newydd hyn feichiau ychwanegol sylweddol ar staff cyllid yr Awdurdod. Er gwaethaf y pwysau ychwanegol hwn, paratowyd y cyfrifon erbyn y terfyn amser statudol. Fodd bynnag, gwnaed nifer o ddiwygiadau i'r cyfrifon drafft a roddodd bwysau gormodol ar yr amserlen.

Nodwyd y materion canlynol mewn perthynas â'r cyfrifon:

- Gwnaeth llythyr Archwilio Blynyddol 2009-10 bwysleisio pwysigrwydd llunio mantolen agoriadol a chyfres ddrafft o gyfrifon Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol cyn gynted â phosibl. Mae nifer y datgeliadau coll a'r diwygiadau i'r Datganiad o Gyfrifon yn dangos bod amserlen y prosiect ar ei hôl hi, ac roedd mwy o waith na'r disgwyl. Mae angen i dimau cyllid sicrhau eu bod yn neilltuo digon o amser i gwblhau set gadarn o gyfrifon drafft ar gyfer yr archwiliad. Byddai hyn felly yn galluogi'r cyfrifon i gael eu harchwilio ymlaen llaw ac yn osgoi pwysau o ran bodloni'r terfyn amser statudol.
- Effeithiodd yr achosion o oedi yn ystod y broses o lunio'r Datganiad o Gyfrifon ar yr archwiliad o ddatganiad Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, ac ni dderbyniwyd pecyn diwygiedig Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan sy'n ymgorffori'r diwygiadau i'r datganiadau terfynol nes 23 Medi. Ni chyflawnwyd terfyn amser Llywodraeth Cymru, sef 30 Medi, ar gyfer cyflwyno datganiadau archwiliedig gan nad oedd digon o amser i gwblhau'r archwiliad o ystyried nifer y diwygiadau a wnaed. Dylai'r Awdurdod sicrhau bod Cyfrifon diwygiedig y Llywodraeth Gyfan yn cael eu cwblhau'n brydlon a'u trosglwyddo i'r tîm archwilio, ynghyd â dogfennaeth ategol yn unol ag amserlen y cytunwyd arni.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009). Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2011.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2010-11 fod yn unol â'r swm a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Virginia Stevens

Dros ac ar Ran yr Archwilydd Penodedig

# Atodiad 4
# Amcanion Gwella Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

http://www.southwales-fire.gov.uk/Cymraeg/hafan/Pages/default.aspx

| **Amcan Gwella 2010-11** | |
|---|---|
| **Amcan 1** Lleihau nifer y marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. | |
| **1** | Nodi a thargedu grwpiau sy'n agored i niwed ar gyfer gwiriadau diogelwch tân yn y cartref. |
| **2** | Ymchwilio i bartneriaethau diogelwch cymunedol presennol a gwerthuso eu heffeithiolrwydd. |
| **3** | Datblygu trefniadau gweithio agosach gydag asiantaethau partner. |
| **4** | Cynnal ein rôl fel partner â grŵp Diogelwch Ffyrdd Cymru. |
| **5** | Parhau i ddatblygu ein prosesau Diogelwch Tân Deddfwriaethol i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau a gwella diogelwch yng nghymunedau busnes De Cymru. |
| **6** | Datblygu partneriaethau Diogelwch Tân cyfredol mewn ffordd ragweithiol ym maes busnes a masnach drwy'r Tîm Cyswllt Parhad Busnes i hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r Gorchymyn Diogelwch Tân. |

| **Amcanion Gwella 2011-12** | |
|---|---|
| **Amcan 1** Lleihau nifer y marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. | |
| **1** | Cymryd camau yn unigol ac ar y cyd â sefydliadau eraill er mwyn gostwng ymhellach nifer y marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. |
| **2** | Defnyddio prosesau modelu risg Trefniadau Argyfwng y Gwasanaeth Tân a system ddata MOSAIC er mwyn nodi ardaloedd lle ceir risg uchel yn seiliedig ar anheddau a demograffeg a sicrhau bod mentrau diogelwch yn cael eu targedu yn fwy effeithiol er mwyn defnyddio adnoddau yn y modd mwyaf effeithlon posibl. |
| **3** | Defnyddio unrhyw adnoddau ychwanegol ar gyfer mentrau diogelwch cymunedol. |
| **4** | Ehangu ein trefniadau partneriaeth i weithio gydag asiantaethau eraill ledled Cymru er mwyn targedu ein gweithgareddau diogelwch tân yn y cartref at y grwpiau mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. |
| **5** | Rhoi canlyniadau adolygiad o brosesau busnes yr adran Diogelwch Tân Deddfwriaethol ar waith. |
| **6** | Defnyddio dulliau ymateb mwy deallus. |
| **7** | Cefnogi'r fenter i sicrhau y caiff yr holl dai newydd eu hadeiladu â systemau chwistrellu domestig. |
| **8** | Adolygu ein cyfres o weithdrefnau gweithredu safonol a chynlluniau tactegol. |

| Amcan Gwella 2010-11 | |
|---|---|
| **Amcan 2** Denu, cadw, datblygu a chynnal iechyd a lles ein pobl. | |
| **1** | Datblygu proses gymharol ac effeithiol o ddenu a recriwtio ar gyfer diffoddwyr tân amser cyflawn a diffoddwyr tân ar ddyletswydd yn ôl galw. |
| **2** | Ceisio cydraddoldeb o ran telerau ac amodau gwasanaeth rhwng staff gweithredol ac anweithredol. |
| **3** | Parhau i ddatblygu ein staff, gan gynnwys nodi arweinwyr ar gyfer y dyfodol. |
| **4** | Rhoi cynlluniau potensial uchel, prosesau cynllunio olyniaeth a chynllunio'r gweithlu ar waith. |
| **5** | Datblygu strategaeth pobl sy'n cyfrannu'n effeithiol at flaenoriaethau strategol y Gwasanaeth. |
| **6** | Gwella perfformiad yn barhaus o ran gostwng damweiniau a'r amser a gollir oherwydd damweiniau drwy annog agwedd ragweithiol tuag at iechyd, diogelwch a lles. |

| Amcanion Gwella 2011-12 | |
|---|---|
| **Amcan 2** Parhau i ddatblygu gweithlu ymatebol a chreadigol sy'n arddel ein hegwyddorion. | |
| **1** | Gweithredu ein Strategaeth Pobl. |
| **2** | Defnyddio ein gweithlu mewn ffordd greadigol i sicrhau parhad busnes. |
| **3** | Ymgysylltu'n eang â'r cyhoedd a'n gweithlu presennol. |
| **4** | Gweithredu ein Siartr Aelodau. |

| Amcan Gwella 2010-11 | |
|---|---|
| **Amcan 3** Sicrhau bod asedau'r Gwasanaeth yn cael eu defnyddio'n effeithiol i helpu i ddarparu gwasanaethau. | |
| **1** | Datblygu'r strategaethau arweiniol sy'n weddill, sef y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Strategaeth Pobl. |
| **2** | Datblygu a gweithredu cynlluniau rheoli ar gyfer pob grŵp o asedau, sef Fflyd, Tir ac Adeiladau, Offer a Chyfarpar, Mân Asedau a TGCh. |
| **3** | Ceisio gwelliant mewn perfformiad gweithredol drwy fanteisio ar dechnoleg. |
| **4** | Cynnal fflyd weithredol effeithlon, effeithiol a darbodus o gerbydau. |
| **5** | Penodi staff i'r adran Prosiectau ac Eiddo Mawr. |
| **6** | Gweithredu Gweithgor Rheoli Asedau i sicrhau bod aelodau'n craffu ar yr amcan hwn yn effeithiol. |

| Amcanion Gwella 2011-12 | |
|---|---|
| **Amcan 3** Sicrhau bod ein hadnoddau a'n hasedau yn cael eu defnyddio'n effeithiol i helpu i ddarparu gwasanaethau. | |
| **1** | Gwneud y defnydd gorau o asedau drwy roi proses reoli fwy effeithiol ar waith drwy raglen adnewyddu cerbydau ac olrhain asedau. |
| **2** | Datblygu'r rhaglen cynnal a chadw eiddo adweithiol. |
| **3** | Datblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2010/2014. |
| **4** | Cynnal adolygiad lefel uchel o gyfraniad pob gorsaf i ddiogelwch y cyhoedd a diffoddwyr tân a nodi'r meysydd hynny lle y dylid cynnal dadansoddiad manylach. |
| **5** | Archwilio effeithiolrwydd yr holl gyfarpar pwmpio eilaidd a'r angen amdanynt yn y dyfodol gan gynnwys lleoliad, data am ddigwyddiadau, cyfradd galwadau a threfniadau criwiau. |
| **6** | Archwilio effeithiolrwydd pob cyfarpar arbennig gan gynnwys data am ddigwyddiadau, lleoliad, cyfraddau galwadau a threfniadau criwiau. |

| Amcan Gwella 2010-11 | |
|---|---|
| **Amcan 4** Gwella’r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau mewnol gan sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau ariannol a phobl. | |
| **1** | Cynnal hyfforddiant rheoli newydd perthnasol i reolwyr a staff. |
| **2** | Sicrhau bod y strategaethau cydgysylltiedig perthnasol yn cael eu paratoi. |
| **3** | Datblygu'r camau gweithredu a nodwyd yn y gwerthusiad o weithdai gwella 2009/10. |
| **4** | Pennu gofynion llinell sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau. |
| **5** | Ystyried dewisiadau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau llinell sylfaen ac adolygu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. |
| **6** | Adolygu'r dyraniad o gyllid a phobl yn erbyn gofynion darparu gwasanaethau llinell sylfaen a chysoni yn unol â hynny. |
| **7** | Cynnal gwaith cwmpasu ar gyfer prosiectau gwella penodol y ceir manylion amdanynt yn ein Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2011/12. |
| **8** | Ailbeiriannu a gwella holl brosesau busnes yr Adran Diogelwch Tân Deddfwriaethol; adeiladu ar bartneriaethau presennol ym maes busnes a masnach a hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Gorchymyn Diogelwch Tân. |

| Amcanion Gwella 2011-12 | |
|---|---|
| **Amcan 4** Gwella’r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau mewnol gan sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau ariannol a phobl. | |
| **1** | Adolygu a symleiddio systemau a phrosesau gwasanaethau cymorth ein prif swyddfa er mwyn nodi lle y gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd. |
| **2** | Hyfforddi rheolwyr canol ar y model meddwl drwy systemau i'w galluogi i gael yr adnoddau a'r systemau i ysgogi newid a gwelliannau yn eu meysydd eu hunain. |
| **3** | Nodi a rhyddhau arbedion effeithlonrwydd a allai godi o ganlyniad i heriau i strwythurau'r sefydliad a gwasanaethau mewnol. |
| **4** | Cwmpasu adolygiad TGCh mawr. |

| Amcan Gwella 2010-11 | |
|---|---|
| **Amcan 5** Hyrwyddo cymunedau lleol cynaliadwy drwy ein gweithgareddau. | |
| **1** | Cyflawni lefel 3 o'r fframwaith asesu caffael cynaliadwy. |
| **2** | Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol newydd. |
| **3** | Lleihau ein gwastraff a mabwysiadu dulliau gwaredu sy'n fwy derbyniol o safbwynt amgylcheddol. |
| **4** | Yn unol â'n Rhaglen Arolygu ar Sail Risg, targedu eiddo masnachol sy'n peri'r risg fwyaf o achosi niwed amgylcheddol pe bai tân er mwyn lleihau'r risg honno. |

| Amcanion Gwella 2011-12 | |
|---|---|
| **Amcan 5** Hyrwyddo cymunedau lleol cynaliadwy drwy ein gweithgareddau. | |
| **1** | Cynnal mentrau addysg cymunedol â grwpiau ieuenctid ac oedolion sy'n agored i niwed. |
| **2** | Diwygio pob dogfen angenrheidiol i sicrhau ei bod yn ymgorffori lefel 3 o'r fframwaith asesu caffael cynaliadwy. |
| **3** | Adolygu ein Cynllun Tir ac Adeiladau. |
| **4** | Cynyddu'r defnydd o ddulliau ymateb deallus er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb yn amserol ac yn lleihau effaith tanau o ganlyniad i hyn. |
| **5** | Gweithio mwy gyda sefydliadau partner er mwyn cyflawni cydamcanion a sicrhau bod cymunedau'n fwy diogel. |
| **6** | Targedu gwiriadau diogelwch tân yn y cartref mewn ardaloedd lle nodwyd risgiau. |
| **7** | Gweithredu'r Cynllun Rheoli Asedau er mwyn i orsafoedd tân fod yn lleoedd diogel a chynaliadwy i weithio ynddynt ac, mewn sefyllfaoedd priodol, yn gyfleuster at ddefnydd y gymuned hefyd. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk